## Atodiad 4 – Cofnod o Gyfarfodydd Ymgynghori gyda Staff Ysgol

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda staff ysgol ar gais ysgolion unigol.

### Darpariaeth Arbenigol i Ddysgwyr Cynradd ac Uwchradd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol

- Staff Ysgol Gynradd y Tyllgoed (16 Ionawr 2024)

### Darpariaeth Arbenigol i Ddysgwyr Cynradd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a / neu Awtistiaeth

- Staff Ysgol Gynradd Coed Glas (30 Tachwedd 2023)

**Rhaglen Ysgolion**
**Cyfarfod Staff Ysgol Gynradd Y Tyllgoed**
**Anghenion Dysgu Ychwanegol**
**Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol - Cynradd**
**16 Ionawr 2024 am 5pm**

**Yn bresennol:** Brett Andrewartha (CTY), Louise Flynn (AD), Kassia Morris (ADY), Rosalie Phillips (CTY), Staff Ysgol Gynradd y Tyllgoed.

*Noder: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd BA y cyfarfod a chroesawodd y staff. Cafwyd cyflwyniadau yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu, y cyfarfod cyhoeddus ac roedd gwybodaeth yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y Cyngor yn awyddus i ffurfioli'r Dosbarth Lles presennol a oedd eisoes yn rhan o'r ysgol.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn ffurfioli statws y dosbarth lles gan ganiatáu i leoliadau gael eu hymestyn yn ôl yr angen. Roedd wyth lle yn y Dosbarth Lles ac ni fyddai cynnydd yn nifer y plant.

**Pennaeth – edrych ar gwmpas i drawsnewid yr amgylchedd dysgu e.e. ail ystafell, datblygu ystafell synhwyraidd, datblygu ystafell feddal a darpariaeth awyr agored; edrych ar y cyfleoedd i ddatblygu.**

**C: beth yw'r rheswm dros y newid a beth mae hyn yn ei olygu i staff?**

BA – mae nifer o Ddosbarthiadau Lles ar draws y ddinas ac rydym yn awyddus i ffurfioli'r trefniadau hyn ochr yn ochr â sefydlu darpariaethau newydd mewn ysgolion eraill. Mae'r lleoliadau presennol yn gyfyngedig o ran amser, ac nid oes gan y dosbarthiadau'r sicrwydd o ddarpariaeth ffurfiol; byddai darpariaeth CAA yn caniatáu i leoliadau gael eu hymestyn yn ôl yr angen. Byddai'r staff yn cael eu cyflogi gan yr ysgol.

**C: A all plant gael eu cofrestru ar sail ddeuol / unigol?**

BA – Gallant, mae modd gweithredu ar y naill sail neu'r llall ond byddai'n ymgynghori â'r ysgol cyn y lleoli.

BA – cynhelir yr ymgynghoriad tan 19 Ionawr 2024 gydag adroddiad i'r Cabinet ar ganlyniad yr ymgynghoriad ym mis Mawrth 2024 pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud o ran a ddylid symud ymlaen i'r cam nesaf. Os penderfynir symud i hysbysiad statudol, byddai'r hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill ac yn caniatáu cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau.

BA – byddai'n gofyn fel ysgol am gadarnhad o gefnogaeth ar gyfer y newid arfaethedig; opsiwn i gyflwyno ymateb ffurfiol ar y cyd neu ymatebion unigol; cyhoeddir unrhyw ymatebion ffurfiol a dderbynnir yn llawn, gydag unrhyw ymatebion anffurfiol yn cael eu crynhoi a'u gwneud yn ddienw.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd BA i'r staff a daeth y cyfarfod i ben.

**Yn bresennol:** Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Cath Keegan-Smith (ADY), Louise Flynn (AD), Shirley Karseras (CTY), tua 35 o aelodau staff Ysgol Gynradd Coed Glas.

*Noder: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y cyfarfod yn Ysgol Gynradd Coed Glas**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Michele Duddridge-Friedl (MDF) y cyfarfod a chroesawodd staff ac aelodau.

Rhoddodd BA a CKS gyflwyniad yn amlinellu manylion y cynnig ar gyfer CAA ADC / Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd
- Darpariaeth ADC / CSA gyfredol oedran cynradd
- Twf diweddar
- Y galw a ragwelir
- Beth yw Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA)?
- Sut mae canolfan ADC yn gweithredu?
- Sut mae canolfan awtistiaeth yn gweithredu?
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Coed Glas?
- Meini prawf ar gyfer lleoliad CAA ADC
- Staff ac Adnoddau CAA ADC
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Meini prawf ar gyfer lleoliad CAA Awtistiaeth
- Staff ac Adnoddau CAA Awtistiaeth
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Ansawdd a Safonau
- Manteision y cynigion
- Gwerthuso opsiynau
- Ystyriaethau Eraill
- Ystyriaethau AD
- Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cwestiynau ac ymateb a roddwyd**

Gwahoddodd MDF gwestiynau gan staff.

**C - A yw'r cynnig ar gyfer ADC ac Awtistiaeth?**

CKS – Byddai'r CAA a gynigir ar gyfer un model neu'r llall, nid cymysgedd. Yn dibynnu ar ddiagnosis unigol, mae'n bosibl y bydd gan ddisgybl ADC ac awtistiaeth, ond byddai'r ddarpariaeth ar gyfer ei brif angen.

**C: A fyddai'r Cynorthwy-ydd Addysgu o'r CAA yn cefnogi'r disgybl yn y brif ffrwd ar gyfer y model Awtistiaeth?**

CKS – Gallai wneud hynny. Y model ar gyfer y math hwn o ddarpariaeth yw 2:1 fel arfer (disgyblion: staff) ac felly byddai'n gallu hwyluso'r lefel hon o gefnogaeth pan fo angen.

**C: Beth fyddai'n digwydd pe bai deg disgybl Bl1 yn y ganolfan Awtistiaeth a oedd angen cael mynediad at ddarpariaeth Bl1**?

CKS – Ni fyddai hyn yn digwydd. Yn ddelfrydol, byddai'r disgyblion o'r ardal leol, ond mae disgyblion hefyd yn cael eu lleoli fel bod cydbwysedd o ran oedran, rhywedd ac anghenion penodol. Mae'r ysgol a'r rhieni bob amser yn ymwneud â phenderfyniadau o ran dyraniadau.

MDF – Byddai ADC yn hysbys o'r Dosbarth Derbyn tra gallai diagnosis Awtistiaeth fod yn nes ymlaen ac felly byddai angen lleoedd ar gyfer gwahanol grwpiau blwyddyn.

CKS – Byddai disgyblion yn cael mynediad at ddarpariaeth yn seiliedig ar eu hangen a'u gallu. Gallai myfyriwr Bl3 fynychu dosbarthiadau prif ffrwd Bl4.

**C: Sut byddai'r gweithgareddau allgyrsiol ar gyfer disgyblion ag ADC yn cael eu trefnu ac a fyddai cyllid ychwanegol ar eu cyfer?**

CKS – Na, byddai hyn yn hwyluso disgyblion ag ADC i gael mynediad at y gweithgareddau allgyrsiol presennol sy'n digwydd yn yr ysgol yn barod.

**C: Beth yw'r logisteg o gael CAA o'r fath gyda gweithrediad yr ysgol o ddydd i ddydd?**

Dywedodd CKS fod Canolfan Adnoddau Nam ar y Clyw (CANC) eisoes yn rhedeg yn llwyddiannus yn eu hysgol felly byddai'n debyg i'r ffordd y mae honno'n cael ei rhedeg. Awgrymodd y dylid ymweld ag ysgol sydd â Chanolfan Adnoddau ADC neu Awtistiaeth eisoes wedi'i sefydlu i weld sut mae'n gweithio.

**C: Sut byddai'r cyllid yn gweithio ar gyfer disgyblion yn y CAA gan nad oes cyllid i'r CANC gael bleindiau a theils acwstig wedi'u gosod ac mae'r ddarpariaeth ADY ar gyfer disgyblion prif ffrwd wedi ei rhewi?**

MDF - Byddai cyllid yn cael ei ddyrannu ar gyfer y ddarpariaeth CAA newydd. Bydd yn cael gwybod am gyllid ar gyfer y CANC ond gan fod honno'n ganolfan sydd eisoes yn bodoli, mae hi'n credu y byddai hynny'n dod o'r gyllideb ysgol bresennol. **Camau Gweithredu – MDF i gadarnhau'r sefyllfa hon.**

**C: O ble y byddai'r staff arbenigol yn dod pe bai absenoldebau staff yn y CAA drwy salwch? A fyddai disgwyl i staff presennol yr ysgol helpu?**

CKS - Ar hyn o bryd does dim prinder ar draws y ddinas i ymgeiswyr weithio yn y sector ADY ond yn amlwg ni allent warantu na fyddai problem ar ryw adeg. Byddai hyfforddiant ar gael i staff presennol yr ysgol i helpu pe byddent yn dymuno gwneud hynny. Esboniodd CKS y byddai'r Tîm ADY yn gweithio gyda'r ysgol ar y disgrifiadau swydd.

**C: A fyddai'r cyllid yr un fath â'r CANC?**

CKS – Mae gan bob CAA fodel ariannu cyson. Darperir staff ac adnoddau'r CAA fel cyfandaliad yng nghyllideb yr ysgol. Ni fyddai presenoldeb CAA yn rhoi straen ychwanegol ar gyllideb ysgol.

**C: Mae eisoes problem gyda diffyg cefnogaeth i ddisgyblion prif ffrwd ag ADY. Sut fyddai staff profiadol yn cael eu recriwtio?**

CKS – Mae staff o fewn y Gwasanaeth Cynhwysiant ac athrawon arbenigol sy'n gwneud cais i weithio yn y CAAau yn ogystal ag athrawon sy'n trosglwyddo o'r brif ffrwd ac felly nid yw'n teimlo bod recriwtio yn broblem. Mae yna hefyd ymgeiswyr y tu allan i'r Sir sydd eisiau gweithio yng Nghaerdydd. Yn y pen draw, mater i'r Corff Llywodraethu yw penderfynu beth fyddai ei angen arnynt gan ymgeiswyr mewn perthynas â phrofiad.

**C: A fyddai digon o amser i fynd drwy'r broses recriwtio?**

BA – Pe cytunwyd ar y cynnig, yna'r cwbl y byddai hynny'n ei olygu yw bod sefydliad ffurfiol ar waith o fis Medi 2024 ymlaen. Ni fyddai disgyblion ar y gofrestr ar y dyddiad hwn o reidrwydd.

MDF – Anogodd staff i gynnwys y mathau hyn o bryderon penodol yn eu hymateb. Er enghraifft, a fyddai oedi o ran y dyddiad neu'r sgiliau penodol sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r broses recriwtio yn lliniaru'r pryderon hyn?

**C - A yw'r £10.3 miliwn a ragwelir ar gyfer lleoedd mewn ysgolion annibynnol neu y tu allan i'r sir yn cynnig gwerth am arian a beth mae disgyblion prif ffrwd**

**yn ei ennill drwy gael CAA ar y safle? Sut ydych chi'n sicrhau nad yw disgyblion prif ffrwd yn cael eu heffeithio'n negyddol gyda'r trefniant hwn?**

CKS - Na, dydy hyn ddim yn cynnig gwerth am arian o gwbl a dyna pam mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig cynyddu lleoedd arbenigol yng Nghaerdydd.

Bydd disgyblion prif ffrwd yn elwa’n helaeth o gael plant ag ADY yn mynychu safle'r ysgol gan y bydd yn cynyddu eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o ystod o anghenion ac yn eu paratoi'n well ar gyfer integreiddio cymdeithasol y tu hwnt i'r ysgol.

MDF – Mae Cyngor Caerdydd yn cefnogi cynhwysiant ac er y gall rhai ymddygiadau fod yn heriol i staff, mae lefel ADY yn cynyddu ac mae angen darpariaeth ddigonol ar draws y ddinas i ddiwallu'r anghenion hyn.

**Pennaeth – Mae Coed Glas eisoes yn gweithredu uned sy'n cefnogi cynhwysiant cymdeithasol ac mae'n falch bod pob disgybl prif ffrwd yn gallu arwyddo.**

**C: Mae staff Coed Glas yn frwd dros gynhwysiant, ond mae ganddynt eisoes Ganolfan Adnoddau ADY gyda'r uned Byddar a Nam ar y Clyw, oni allai ysgol arall yn yr ardal fabwysiadu'r ganolfan arfaethedig newydd hon?**

MDF – O bosib. Mae ysgolion eraill ar draws y ddinas hefyd yn rhan o'r cynigion CAA hyn.

**C - A fyddai mandad ar ba ddisgyblion sy'n mynychu'r CAA? Mae gen i bryderon ynghylch y logisteg o ran sut y byddai anghenion disgybl mewn grŵp blwyddyn penodol, sydd eisoes wedi'i orymestyn, yn cael eu diwallu.**

CKS – Byddai'r Gwasanaethau Cynhwysiant bob amser yn cysylltu â'r ysgol i gytuno ar garfannau a rhestrau dosbarthiadau.

**C - A fyddai disgwyl i ddosbarth o 30 o ddisgyblion gynnig darpariaeth ar gyfer disgyblion ychwanegol o'r model Awtistiaeth, gan ddod â'r cyfanswm y tu hwnt i'r NDC?**

CKS – Mae disgyblion sydd ag ADC yn ychwanegol at y NDC gan y byddent yn treulio eu diwrnod ysgol arferol yn y CAA, fodd bynnag, mae disgyblion ag Awtistiaeth ac a fyddai'n mynychu gwersi prif ffrwd ar adegau, yn cael eu cynnwys yn y NDC.

**C: A ymgynghorwyd â rhieni? A fyddai rhieni arfaethedig yn cael eu digalonni rhag gwneud cais am le yng Nghoed Glas pe bai'r CAA yn cael ei chymeradwyo?**

MDF – Mae nifer o ddulliau ymgynghori wedi'u cynllunio drwy gydol y cyfnod ymgynghori gan gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio, a gohebiaeth e-bost lle bydd rhieni'n gallu darganfod mwy a mynegi eu barn.

**C: A oes digon o athrawon arbenigol i staffio'r canolfannau newydd hyn?**

CKS – Mae staff o fewn y Gwasanaeth Cynhwysiant ac athrawon arbenigol sy'n gwneud cais i weithio yn y CAAau yn ogystal ag athrawon sy'n trosglwyddo o'r brif ffrwd ac felly nid yw'n teimlo bod recriwtio yn broblem. Mae yna hefyd ddiddordeb gan ymgeiswyr o'r tu allan i'r Sir sydd eisiau gweithio yng Nghaerdydd. Yn y pen draw, mater i'r Corff Llywodraethu yw penderfynu beth fyddai ei angen arnynt gan ymgeiswyr mewn perthynas â phrofiad.

**C: Pe bai'r staff yn dweud nad ydyn nhw o blaid, ai'r Pennaeth fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol?**

MDF – Na. Mae safbwyntiau'r holl randdeiliaid yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori. Caiff y canfyddiadau eu cofnodi a'u cyflwyno i'r Cabinet a fydd wedyn yn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynnig ai peidio. Os yw'r staff yn ei erbyn, dylent fynegi *pam* maen nhw'n credu na fyddai'n gweithio gan y bydd y Cabinet yn ystyried hyn fel rhan o'r broses ymgynghori.

**C - A fydd cyllid ar gael i ryddhau staff fel y gallant ymweld â'r CAA presennol?**

Pennaeth – Byddai'r ysgol yn dod o hyd i ffordd o gefnogi hyn.

**C: Pam mae gofyn i Coed Glas gael y ddarpariaeth hon? Oherwydd y niferoedd is o ddisgyblion a'r ffaith fod ganddi safle mawr? Nid wyf yn credu bod gennym ddigon o le.**

MDF – Ie, yn rhannol, mae yna gapasiti o ran y niferoedd is o ddisgyblion o gymharu â'r NDC, ond hefyd oherwydd bod gan yr ysgol hanes amlwg o gynhwysiant ac yn ddaearyddol mae hi mewn lleoliad da.

**C - A fyddai'r CAA wedi ei lleoli yn y caban symudol?**

MDF - Nid yw hynny wedi ei benderfynu eto, ond byddai'r ddarpariaeth o fewn adeiladau presennol yr ysgol.

**C - A fyddai'r disgyblion yn trosglwyddo i'r CAA yn Ysgol Uwchradd Llanisien?**

CKS - Byddent pe byddai modd diwallu'r anghenion a bod lle, yna byddai'r pontio hwnnw'n cael ei weld fel canlyniad positif iawn i ddisgyblion ag ADY sy'n byw yn y rhan hon o Gaerdydd.

**C: A fyddai disgyblion yn cael eu derbyn i'r CAA fel blaenoriaeth pe bai ganddynt frodyr a chwiorydd eisoes ar y gofrestr yn Ysgol Coed Glas?**

MDF – Byddai disgyblion yn cael eu derbyn i'r CAA yn seiliedig ar lefel eu hangen ac mewn ymgynghoriad â'r ysgol.

**C - A allai'r newid hwn sbarduno arolwg Estyn?**

MDF - Nid yw cynigion Trefniadaeth Ysgolion yn cychwyn arolygiadau yn awtomatig.

**C - Pwy fyddai'n cynllunio'r gwaith ar gyfer y plant yn y CAA Awtistiaeth?**

MDF – Mae staff yn cydweithio.

**C: Oes gan unrhyw ysgol arall ddau CAA?**

MDF / CKS – Oes, Ysgol Gynradd Springwood. Argymhellir bod staff yn ymweld â'r ysgol hon neu Llanishen Fach i weld sut mae goblygiadau gweithredol yn cael eu rheoli.

**C: A fyddai mwy o le parcio ar gael ar y safle i staff gan ei bod eisoes yn anodd cael lle**?

MDF – Gall hwn fod yn gais rhesymol a gallai gael ei adolygu gan y Cabinet a'r swyddogion.

Gwahoddodd MDF y staff i gyflwyno ymatebion i'r cynnig fel ymateb ffurfiol ar y cyd yn ogystal ag yn unigol. Rhannodd y ddolen i'r arolwg ar-lein.

Diolchodd MDF i'r staff a daeth y cyfarfod i ben.